



# Cynnwys

	tudalen
Cyflwyniad / Cysylltwch â ni	3
Pryd Gallaf Ymddeol?	4 - 5
Cyfrifo eich Buddion	5 - 7
Salwch / Colli Swydd	7
Beth ddylech ystyried?	8 - 9
Y Lwfans Oes	10
Beth mae'r Gronfa Bensiwn yn ei wneud?	11 - 12
Wedi eich Ymddeoliad	13 - 15
Y Pensiwn Gwladol	16
Marwolaeth mewn Ymddeoliad	17 - 18
Y Broses Datrys Anghydfod	18
Cysylltiadau Defnyddiol	19
Rhestr Wirio	20

# Contents

	page
Introduction / Contact Us	3
When Can I Retire?	4 - 5
Calculating your Benefits	5 - 7
Ill Health / Redundancy	7
What do you need to consider?	8 - 9
The Lifetime Allowance	10
What does the Pension Fund do?	11 - 12
After your retirement	13 - 15
The State Pension	16
Death in Retirement	17 - 18
The Dispute Resolution Process	18
Useful Contacts	19
Checklist	20

# Canllaw i'ch Ymddeoliad o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)

## Cyflwyniad

Mae'r canllaw yma yn egluro mewn termau syml, y trefniadau ar gyfer taliad eich buddion pensiwn ar eich ymddeoliad o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) o dan eich cyflogaeth gyfredol. Mae hefyd yn gosod allan y buddion sy'n daladwy i'ch goroeswyr ar achlysur eich marwolaeth a'r pethau pwysicaf eraill y dylid eu nodi.

Ni all y canllaw yma gynnwys pob amgylchiad personol ac yn wyneb unrhyw anghydfod ynglŷn â'ch buddion pensiwn bydd y ddeddfwriaeth briodol yn trechu. Nid yw'r canllaw yma yn cyflwyno unrhyw hawl cytundebol neu statudol ac fe'i darparir ar gyfer pwrpas cyfleu gwybodaeth yn unig.

Nodwch os gwelwch yn dda na fydd y canllaw yma yn berthnasol yng nghyswllt yr holl amgylchiadau os ydych i dderbyn **buddion pensiwn gohiriedig** gan CPLIL yn y dyfodol agos.

## Cysylltwch â ni

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'ch ymddeoliad, peidiwch â phetruso cyn cysylltu â ni:

Adran Bensiynau  
Cyngor Gwynedd  
Swyddfeydd y Cyngor  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1SH

Ffôn: 01286 679 982

E-bost: [pens@gwynedd.llyw.cymru](mailto:pens@gwynedd.llyw.cymru)

Safle Wê: [www.cronfabensiwngwynedd.org.uk](http://www.cronfabensiwngwynedd.org.uk)

# A Guide to your Retirement from the Local Government Pension Scheme (LGPS)

## Introduction

This guide explains in simple terms, the arrangements for the payment of your pension benefits upon retirement from the Local Government Pension Scheme (LGPS) under your current employment. It also sets out those benefits payable to your survivors in the event of your death and the other most important things to note.

This guide cannot cover every personal circumstance and in the event of any dispute over your pension benefits the appropriate legislation will prevail. This guide does not confer any contractual or statutory rights and is provided for information purposes only.

Please note that this guide may not be applicable in all circumstances if you are shortly due to receive the payment of a **deferred pension benefit** from the LGPS.

## Contact Us

If you have any queries regarding your retirement, please do not hesitate to contact us:

Pensions Section  
Gwynedd Council  
Council Offices  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1SH

Tel: 01286 679 982

E-mail: [pens@gwynedd.llyw.cymru](mailto:pens@gwynedd.llyw.cymru)

Website: [www.gwynedd-pensionfund.org.uk](http://www.gwynedd-pensionfund.org.uk)

## Ydych yn ystyried Ymddeol o CPLIL?

Fel aelod o'r CPLIL mae gennych nifer o ddewisiadau wrth ymddeol. Tra bod eich Oedran Pensiwn Arferol (OPA) yn y Cynllun yn hafal i'ch Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (OPW), mae gennych hyblygrwydd i ymddeol yn wirfoddol o 55 mlwydd oed, ond gallwch hefyd barhau yn y Cynllun ar ôl eich OPA, ar yr amod bod eich buddion yn daladwy cyn 75 mlwydd oed. Mae gennych hefyd yr opsiwn o ymddeol yn hyblyg gyda disgrisiwn eich Cyflogwr o 55 mlwydd oed. Nodwch y bydd unrhyw gynnydd i'ch OPW yn y dyfodol yn golygu cynnydd i'ch OPA. Wedi ymddeol byddwch yn derbyn pensiwn blynyddol yn daladwy am oes, lwmp swm rhydd o dreth awtomatig (os yn aelod ar neu cyn 31 Mawrth 2008), a'r dewis i gyfnewid pensiwn am arian parod rhydd o dreth.

### A fydd fy muddion yn cael eu lleihau pe byddwn yn penderfynu ymddeol cyn fy OPA?

Gall eich buddion gael eu lleihau i gymryd taliad cynnar i ystyriaeth. Fodd bynnag os oeddech yn aelod o'r Cynllun ar neu cyn **30 Medi 2006**, gallasai cyfran neu'r cyfan o'ch buddion gael eu diogelu rhag unrhyw leihad. Am ragor o wybodaeth cyfeiriwch at daflen wybodaeth rheol 85 mlynedd sydd ar gael gan y Gronfa Bensiwn.

Nodwch os gwelwch yn dda NAD yw'r lleihad yn berthnasol os ydych yn cael eich gwneud yn ddi-waith neu eich bod yn gorfod ymddeol yn gynnar ar sail effeithiolrwydd ar ddymuniad eich cyflogwr. Dangosir lefel y lleihad a weithredir ar daliadau buddion cynnar isod:

Nifer o flyn. a dalwyd yn gynnar	Lleihad Pensiwn (dynion)	Lleihad Pensiwn (merched)	Lleihad Lwmp Swm (y ddau)
1	5.6%	5.2%	2.9%
2	10.8%	10.1%	5.7%
3	15.5%	14.6%	8.5%
4	20.0%	18.8%	11.2%
5	24.0%	22.7%	13.7%
6	27.8%	26.4%	16.3%
7	31.4%	29.8%	18.7%
8	34.7%	33.0%	21.1%
9	37.7%	36.1%	23.4%
10	40.6%	38.9%	25.6%
11	44.2%	42.2%	DB
12	47.6%	45.5%	DB
13	50.9%	48.6%	DB

## Considering Retirement from the LGPS?

As a member of the LGPS, you have a number of options as to when you can retire. While your Normal Pension Age (NPA) in the Scheme equals your State Pension Age (SPA), you have flexibility to retire voluntarily from age 55, but you can also continue in the Scheme after your NPA, provided your benefits become payable before age 75. You also have the option of Flexible retirement at your Employer's discretion from age 55. Please note that any future increase to your SPA will mean an increase to your NPA.

Having retired you will receive an index linked annual pension payable for life, an automatic tax free lump sum (if a member on or before 31 March 2008), and the option to exchange pension for tax free cash.

### Will my benefits be reduced if I retire before my NPA?

Your benefits may be reduced to take account for early payment. However, if you were a member of the Scheme on or before **30 September 2006**, some or all of your benefits may be protected from any reduction. For further information on the 85 Year Rule, please contact the Pension Fund.

Please note this reduction is NOT applicable if from age 55 you are made redundant or have to retire early on efficiency grounds at the request of your Employer.

The level of reduction applied to the early payment of benefits is shown below:

No. of years paid early	Pension Reduction (men)	Pension Reduction (women)	Lump sum reduction (both)
1	5.6%	5.2%	2.9%
2	10.8%	10.1%	5.7%
3	15.5%	14.6%	8.5%
4	20.0%	18.8%	11.2%
5	24.0%	22.7%	13.7%
6	27.8%	26.4%	16.3%
7	31.4%	29.8%	18.7%
8	34.7%	33.0%	21.1%
9	37.7%	36.1%	23.4%
10	40.6%	38.9%	25.6%
11	44.2%	42.2%	NA
12	47.6%	45.5%	NA
13	50.9%	48.6%	NA

## Alla i barhau i weithio ar ôl fy OPA?

Os ydych yn parhau i weithio ar ôl eich OPA, gallwch barhau i gyfrannu i'r CPLIL a chronni buddion pellach hyd nes y byddwch yn dewis ymddeol neu gyrraedd 75 mlwydd oed. Fe delir eich pensiwn ar raddfa gynyddol i adlewyrchu y bydd yn cael ei dalu dros gyfnod llai. **Dylech siarad â'ch cyflogwr ynglŷn â gweithio ymhellach na'ch OPA.**

## Alla i barhau i weithio gan symud tuag at ymddeoliad yn raddol?

Mae'n bosibl i chi dderbyn yr holl fuddion pensiwn yr ydych wedi eu casglu hyd yma a pharhau i weithio, ar yr amod eich bod un ai yn lleihau'r oriau yr ydych yn eu gweithio neu symud i swydd ar raddfa is, cyn belled yr ydych yn 55 mlwydd oed neu hŷn a bod gennych ganiatâd eich cyflogwr i wneud hynny. Adnabyddir hyn fel **ymddeoliad hyblyg**. Dylech nodi hefyd y gellir lleihau eich buddion i adlewyrchu taliad ymddeoliad cynnar (ar ddisgresiwn eich cyflogwr).

## Sut y cyfrifir fy muddion?

Ni fydd y buddion pensiwn yr ydych wedi cronni ers 1 Ebrill 2014 bellach yn gysylltiedig â'ch cyflog terfynol. Yn hytrach bydd eich buddion o'r dyddiad hwn yn cael ei gyfrifo ar Gyfartaledd o'ch Cyflog Gyrfa wedi'i Adbriso (Cyfartaledd Gyrfa). Fodd bynnag, os oes gennych aelodaeth yn y cynllun ar neu cyn 31 Mawrth 2014, bydd eich buddion cyflog terfynol yn cael eu diogelu a byddent yn parhau i gael eu cyfrifo gan gyfeirio at eich cyflog pensiynadwy pan fyddwch yn ymddeol.

Mae amddiffyniad pellach wedi'i roi i aelodau a oedd o fewn 10 mlynedd o'u Hoedran Ymddeol Arferol (fel rheol 65 mlwydd oed) ar 1 Ebrill 2012 h.y. y rhai dros 55 mlwydd oed ar 1 Ebrill 2012. Os ydych yn y category yma, bydd eich buddion pensiwn pan fyddwch yn ymddeol yn cael ei asesu er mwyn sicrhau eich bod ddim gwaeth allan ar ôl cyflwyno'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014 o 1 Ebrill 2014.

Bydd yr elfennau Cyflog Terfynol a Chyfartaledd Gyrfa o'ch buddion yn cael eu cyfrifo ar wahân pan fyddwch yn ymddeol. Fodd bynnag, bydd y cyfanswm cyfunol y ddau yna yn ildio cyfanswm gwerth eich buddion CPLIL.

## Aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014

Ar gyfer aelodaeth a adeiladwyd hyd at 31 Mawrth 2008, byddwch yn derbyn pensiwn sy'n hafal i 1/80 o'ch cyflog terfynol, yn ogystal â lwmp swm di-dreth awtomatig o 3 gwaith gwerth y pensiwn hwn. Mae'r cyfrifiad hwn hefyd yn seiliedig ar eich aelodaeth o'r cynllun, sy'n cael ei gymesur os ydych yn gweithio'n rhan amser. Ar gyfer aelodaeth a adeiladwyd rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014, byddwch yn derbyn pensiwn sy'n hafal i 1/60 o'ch cyflog terfynol, ond does DIM hawl i lwmp swm awtomatig. Fodd bynnag, byddwch yn cael y dewis i gyfnewid rhan o'ch pensiwn am lwmp swm di-dreth pan fyddwch yn ymddeol.

## Can I carry on working after my NPA?

If you carry on working after your NPA, you can continue to pay into the LGPS and build up further benefits until you choose to retire or reach age 75. Your pension will be paid at an increased rate to reflect the fact that it will be paid over a shorter time. **You should speak with your Employer about working beyond your NPA.**

## Can I carry on working but gradually move into retirement?

It is possible for you to receive all the pension benefits that you have built up to date and continue to work, providing you either reduce the hours you work or move to a post on a lower grade, as long as you are age 55 or over and have your Employer's consent to do so. This is known as **flexible retirement**.

You should also note that your benefits may be reduced to reflect the early payment (at the discretion of your Employer).

## How are my benefits calculated?

The pension benefits that you have built up since 1 April 2014 will no longer be linked to your final salary. Your benefits from this date will be calculated on a Career Average Re-valued Earnings (CARE) basis instead.

However, if you have membership in the scheme on or before 31 March 2014, your final salary benefits are protected and will continue to be calculated with reference to your pensionable pay at retirement.

Further protection has been awarded to members who were within 10 years of their Normal Retirement Age (normally age 65) on 1 April 2012 i.e. those over age 55 on 1 April 2012. If you are in this category, your pension benefits when you retire will be assessed to ensure that you are no worse off under the introduction of the LGPS 2014 from 1 April 2014.

The Final Salary and CARE element of your benefits will be calculated separately when you retire. However, the combined total of the two will then yield the total value of your LGPS benefits.

## Membership before 1 April 2014

For membership built up to 31 March 2008, you will receive a pension that is equal to 1/80th of your final pay, plus an automatic tax-free lump sum of 3 times the value of this pension. This calculation is also based on your membership of the scheme, which is proportioned if you work part time. For membership built up from 1 April 2008 to 31 March 2014, you will receive a pension that is equal to 1/60th of your final pay, but with NO automatic lump sum entitlement. However, you will have the option to exchange part of your pension for a tax-free lump sum when you retire.



## Aelodaeth o 1 Ebrill 2014

Bob blwyddyn, byddwch yn cronni pensiwn sy'n gyfwerth â 1/49 o'r cyflog pensiynadwy a gawsoch yn y flwyddyn honno (o 1 Ebrill hyd 31 Mawrth). Eich tâl pensiynadwy yw'r swm y tâl yr ydych yn talu eich cyfraniadau pensiwn arno. Os ydych wedi dewis i ymuno â'r adran 50/50 y cynllun, bydd y gyfradd y mae eich pensiwn yn adeiladu yn hanner y gyfradd hon, hy 1/98 o'ch cyflog pensiynadwy. Bydd y pensiwn yr ydych yn cronni o 1 Ebrill - 31 Mawrth wedyn yn cael ei ychwanegu at eich cyfrif pensiwn ac yn cael ei ailbriso yn unol â chostau mynegai byw priodol bob mis Ebrill.

Mae'r enghraifft isod yn dangos sut bydd eich buddion pensiwn yn cael ei gyfrifo, os oes gennych aelodaeth cyn ac ar ôl 1 Ebrill 2014.

Ymunodd Sian â'r CPLIL ar 1 Ebrill 1998 ac mae wedi penderfynu ymddeol ar 31 Mawrth, 2016, y diwrnod cyn iddi gyrraedd ei OPA. Mae hi wedi gweithio'n llawn amser yn ystod ei chyfnod yn y CPLIL. Mae ei chyflog derfynol ar gyfer yr elfen cyflog derfynol wedi cael ei asesu fel £15,000.	
<b>Cyfrif Pensiwn Cyfartaledd Gyrfa:</b> (Aelodaeth ar ol 1 Ebrill 2014)	
Enillion pensiynadwy gwirioneddol Sian yn ystod Blwyddyn 1 (1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015) oedd £14,500 a £15,000 yn ystod Blwyddyn 2 (1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016).	
Blwyddyn 1:	$1/49 \times £14,500 = £301.83$ (yn cynnwys ailbriso o 2%)
Blwyddyn 2:	$1/49 \times £15,000 = £312.24$ (yn cynnwys ailbriso o 2%)
Cyfanswm gwerth Cyfrif Pensiwn Cyfartaledd Gyrfa: <b>£614.07</b> (£301.83 + £312.24)	
<b>Elfen Gyflog Derfynol:</b> (Aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014)	
01/04/98 - 31/03/08:	10 blynedd x $1/80 \times £15,000 = £1,875$ Pensiwn Blyneddol 10 blynedd x $3/80 \times £15,000 = £5,625$ Lwmp Swm
01/04/08 - 31/03/14:	6 blynedd x $1/60 \times £15,000 = £1,500$ Pensiwn Blyneddol DIM hawl i lwmp swm awtomatig
Cyfanswm gwerth y Buddion Cyflog Terfynol: £3,375 Pensiwn Blyneddol (£1,875 + £1,500) £5,625 Lwmp Swm	
<b>Cyfanswm Gwerth Buddion CPLIL:</b>	
£614.07 + £3,375 = £3,989.07 Pensiwn Blyneddol £5,625.00 Lwmp Swm Awtomatig Di-dreth	

## Dewis i gyfnwid rhan o'ch pensiwn am lwmp swm di-dreth

Am bob £1 o bensiwn yr ydych yn ei ildio, gallwch dderbyn £12 o lwmp swm ychwanegol; wedi ei gyfyngu i **25% o'r Gwerth Cyfalaf** o'ch buddion pensiwn, fel osodwyd gan CTHEM, sy'n cynnwys eich lwmp swm awtomatig rhydd o dreth sydd wedi ei seilio ar eich aelodaeth hyd at 31 Mawrth 2008. Cofiwch; dewisol yw'r opsiwn yma ac nid yw'n orfodol. Nid oes rhaid i chi gyfnwid yr uchafswm, gallwch ddewis swm is. Efallai y byddwch am geisio Cyngor Ariannol Annibynnol ar y mater.

## Nodwch os gwelwch yn dda

O dan ddeddfau cyfredol CTHEM, mae'n bosib cymryd holl werth eich gronfa CGY fel arian rhydd o dreth (yn amodol ar gyfyngiad Gwerth Cyfalaf uchod). Fodd bynnag, os rhagorir ar y cyfyngiad yma, efallai na fyddwch yn gallu cymryd yr holl o'ch cronfa CGY fel arian rhydd o dreth. Cysylltwch â'ch Cronfa Bensiwn am ragor o fanylion.

## Membership from 1 April 2014

Every year, you will build up a pension that is equal to 1/49th of the pensionable pay that you have received in that scheme year (from 1 April to 31 March). Your pensionable pay is the amount of pay on which you pay your pension contributions. If you have elected to join the 50/50 section of the scheme, the rate at which your pension builds will be half this rate i.e. 1/98th of your pensionable pay. The pension that you build up from 1 April to 31 March is then added to your pension account and is revalued in line with the appropriate cost of living index each April.

The example below shows how your pension benefits will be calculated, if you have membership both before and after 1 April 2014.

Sian joined the LGPS on 1 April 1998 and has decided to retire on 31 March 2016, the day before she attains her NPA. She has always worked full time during her time in the LGPS. Her final pay for her final salary element has been assessed as £15,000.	
<b>CARE Pension Account:</b> (membership after 1 April 2014)	
Sian's actual pensionable earnings during Year 1 (1 April 2014 to 31 March 2015) was £14,500 and £15,000 during Year 2 (1 April 2015 to 31 March 2016).	
Year 1:	$1/49 \times £14,500 = £301.83$ (includes revaluation of 2%)
Year 2:	$1/49 \times £15,000 = £312.24$ (includes revaluation of 2%)
Total value of CARE Pension Account: <b>£614.07</b> (£301.83 + £312.24)	
<b>Final Salary Element:</b> (membership before 1 April 2014)	
01/04/98 - 31/03/08:	10 years x $1/80 \times £15,000 = £1,875$ Annual Pension 10 years x $3/80 \times £15,000 = £5,625$ Lump Sum
01/04/08 - 31/03/14:	6 years x $1/60 \times £15,000 = £1,500$ Annual Pension NO Automatic Lump Sum entitlement
Total value of Final Salary Benefits: £3,375 Annual Pension (£1,875 + £1,500) £5,625 Lump Sum	
<b>Total Value of LGPS Benefits:</b>	
£614.07 + £3,375 = £3,989.07 Annual Pension	

## Opting to exchange part of your pension for a tax-free lump sum

For every £1 of pension you wish to give up, you can gain an additional £12 of lump sum; limited to **25% of the Capital Value** of your pension benefits, as set by the HMRC, which includes your automatic tax free lump sum based on your membership to 31 March 2008. Remember; this is optional and not compulsory. You are also able to give up a lesser amount than the maximum option. You may wish to seek Independent Financial Advice on the matter.

## Please note

Under current HMRC laws, it is possible to take all of your AVC fund as tax free cash (subject to the above Capital Value limit). However, if this limit is exceeded, it may be the case that you are unable to take all your AVC fund as tax free cash. Please contact the Pension Fund for further information.

## Sut fydd fy Lwmp Swm yn cael ei dalu?

Telir eich lwmp swm yn syth i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu o'ch dewis. Gallwch ddewis i'ch lwmp swm a'ch pensiwn gael eu talu i gyfrifon gwahanol os ydych yn dymuno hynny. Gwneir y taliad yn fuan ar ôl diwrnod diwethaf eich cyflogaeth ar yr amod eich bod wedi dychwelyd yr holl ffurflenni a thystysgrifau angenrheidiol.

Fe'ch cynghorir yn gryf i ymgeisio Cyngor Ariannol Annibynnol ynglŷn â buddsoddi eich lwmp swm.

## Beth os ydwyf yn ymddeol oherwydd salwch?

I fod yn gymwys am bensiwn ymddeoliad cynnar oherwydd salwch, rhaid i chi fod yn barhaol analluog o weithredu dyletswyddau eich cyflogaeth bresennol yn effeithlon a bod lleihad yn y tebygolrwydd y byddwch yn ymgymryd ag unrhyw **waith cyflogedig\*** cyn eich OPA.

Cyfeirir achosion i Ymarferwr Meddygol Cofrestredig Annibynnol, a fydd yn asesu eich gallu yn seiliedig ar y dystiolaeth feddygol a gyflwynir.

Yn dibynnu ar yr asesiad, efallai y bydd gennych hawl i daliad yn syth o'ch buddion pensiwn heb eu lleihau, a allasai efallai gael eu cynyddu a bod yn daladwy am oes, yn dibynnu ar raddfa eich gwaeledd.

\*Mae **Gwaith Cyflogedig** yn golygu gwaith cyflogedig am ddim llai na 30 awr yr wythnos am gyfnod o ddim llai na 12 mis.

## Beth os wyf yn cael fy ngwneud yn ddi-waith neu fod fy swydd bresennol yn terfynu oherwydd effeithlonrwydd?

Cyn belled eich bod yn 55 mlwydd oed neu'n hŷn, bydd y buddion pensiwn yr ydych wedi eu cronni hyd at y dyddiad gadael yn dod yn daladwy yn syth, heb eu lleihau ac wedyn yn daladwy am oes. **Nodwch os gwelwch yn dda y bydd gan eich Cyflogwr bolisi sy'n gosod allan ei safiad ar lefel yr iawndal y gall ei gynnig.**

Am ragor o wybodaeth am y mater hwn cysylltwch â'ch Cyflogwr os gwelwch yn dda.

## How will my Lump Sum be paid?

Your lump sum is paid directly in to your chosen bank or building society account. You can choose to have your lump sum and pension paid into different accounts if you wish. The payment will be made soon after your last day of employment providing you return all the necessary forms and certificates.

You are strongly advised to seek Independent Financial Advice regarding the investment of your lump sum.

## What if I have to retire due to ill health?

To qualify for an ill health early retirement pension, you must be permanently incapable of discharging efficiently the duties of your current employment and have a reduced likelihood of undertaking any **gainful employment\*** before your NPA.

Cases are referred to an Independent Registered Medical Practitioner, who will assess your capacity based on the medical evidence presented.

Depending on the assessment you may be entitled to the immediate payment of your retirement benefits unreduced, which may also be enhanced and payable for life, depending on your degree of illness.

\***Gainful Employment** means paid employment for not less than 30 hours in each week for a period of not less than 12 months.

## What if I'm made redundant or my post is terminated due to efficiency?

As long as you are 55 or over, the pension benefits that you have built up to the date of leaving will become payable immediately, unreduced and subsequently payable for life. **Please note that your Employer will have a policy setting out their stance on the level of compensation that they may offer.**

For further information on this matter please contact your Employer.

## Beth ddylech ystyried?

### Allai fforddio i ymddeol?

Bob blwyddyn byddem yn cynhyrchu mynegiad buddion blynyddol, a fydd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y swm pensiwn ac arian rhydd o dreth y gallwch ddisgwyl eu derbyn pan fyddwch yn ymddeol.

Dylech ystyried faint o lwmp swm rhydd o dreth yr ydych yn dymuno ei gymryd wrth ymddeol, fel bod y penderfyniad yn haws i'w wneud pan fyddwch yn derbyn eich pecyn ymddeoliad. I sicrhau eich bod yn gwneud y penderfyniad cywir i'ch amgylchiadau, efallai y bydd yn fuddiol i chi ofyn am gyngor ariannol annibynnol.

### Faint o rybudd fydd angen i mi ei roi?

Rydym yn awgrymu y dylech drafod eich dyddiad ymddeol a natur yr ymddeoliad gyda'ch cyflogwr ar y cyfle cyntaf er mwyn sicrhau taliad amserol o'ch buddion pensiwn.

Bydd eich Cyflogwr wedyn yn hysbysu'r Gronfa Bensiwn ac fe fydd eich pecyn pensiwn yn cael ei anfon atoch yn syth.

### Allai gael amcangyfrif o'm buddion?

Bydd cyfrifiad cywir a therfynol yn cael ei gynnal ar ôl i'r adran bensiynau dderbyn y wybodaeth terfynu gan eich cyflogwr. Dim ond ar ôl i'ch cyflog terfynol gael dalu a / neu eich ffigyrau tâl pensiynadwy terfynol cael eu cyfrifo gall hyn ddigwydd.

## What do you need to consider?

### Can I afford to retire?

Every year we will produce an annual benefit statement, which will provide valuable information about the amount of pension and tax free cash that you can expect to receive when you retire.

You should also consider how much tax free lump sum you wish to take upon retirement, so that the decision is easier to make when you receive your retirement pack. To ensure that you make the correct decision to suit your circumstances, it may be worthwhile seeking Independent Financial Advice.

### How much notice do I need to give?

We would suggest that you discuss your retirement date and nature of the retirement with your employer at the earliest opportunity to ensure the timely payment of your pension benefits.

Your Employer will then notify the Pension Fund and your retirement pack will be sent to you immediately.

### Can I have an estimate of my benefits?

An accurate and final calculation will take place on receipt of the termination information from your employer to the pensions department. This can only take place after the final payment of your wage / salary has been made, and/or your final pensionable pay figures have been calculated.



## A ydw i wedi cysylltu â'm holl ddarparwyr pensiwn eraill?

Dylech gysylltu â'ch darparwr/wyr pensiwn eraill i ddweud wrthynt am agosrwydd eich ymddeoliad a chasglu gwybodaeth am werth eich cronfeydd pensiwn.

Os ydych yn cyfrannu i gytundeb Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) efallai y byddwch yn dymuno gofyn i'r Adran Cyflogres eich cyflogwr i atal eich taliadau CGY yn ystod y mis cyn eich ymddeoliad, fel arall gall oedi ddigwydd yng nghyswllt taliad eich buddion CPLIL.

## A yw fy holl dystysgrifau perthnasol yn barod?

Cyn y gall y Gronfa brosesu taliad eich buddion pensiwn, rhaid i'ch dystysgrifau gael eu gwirio. Trefnwch os gwelwch yn dda bod eich dystysgrifau gwreiddiol neu gopïau ardystiedig yn barod, oherwydd bydd yn rhaid i chi eu cyflwyno gyda'ch dewisiadau ymddeol.

Mae'r dystysgrifau sydd i'w cyflwyno yn cynnwys eich:

- Tystysgrif geni;
- Tystysgrif geni eich Priod / Partner Sifil / Partner sy'n Cyd Fyw Cymwys (os yn berthnasol);
- Tystysgrif priodas / Datganiad Partneriaeth Sifil (os yn berthnasol);
- Archddyfarniad Absoliwt / Tystysgrif diddymiad partneriaeth sifil (os yn berthnasol);
- Tystysgrif marwolaeth priod / partner sifil (os yn berthnasol).

Nodwch os gwelwch yn dda y bydd yr holl dystysgrifau gwreiddiol yn cael eu dychwelyd yn syth.

**Cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn os gwelwch yn dda i gadarnhau pa un ai yw dystysgrifau gwreiddiol / copïau ardystiedig neu gopïau o'r dystysgrifau hyn yn dderbyniol.**

## Have I contacted all my other pension providers?

You should contact your other pension provider(s) to inform them of your impending retirement and to gather information on the value of your pension funds.

If you are contributing to an in-house Additional Voluntary Contribution (AVC) arrangement you may wish to ask your Employer's Payroll Department to stop your AVC payments the month prior to retirement, otherwise there may be a delay in the payment of your LGPS benefits.

## Do I have all my relevant certificates ready?

Before the Fund is able to process the payment of your pension benefits, your certificates must be validated. Please arrange to have your original certificates or certified copies ready, as you will have to submit them with your retirement options.

The certificates to be provided include your:

- Birth Certificate;
- Spouse's / Civil Partner's / Eligible Co-habiting Partner's Birth Certificate (if applicable);
- Marriage Certificate / Civil Partnership Declaration (if applicable);
- Decree Absolute / Dissolution of Civil Partnership Certificate (if applicable);
- Spouse's / Civil Partner's Death Certificate (if applicable).

Please note that all original certificates will be returned immediately.

**Please contact the Pension Fund to confirm whether original / certified copies or copies of these certificates are acceptable.**

## Beth yw Lwfans Oes?

Dyma gyfanswm cynilion pensiwn (yn cynnwys cyfanswm gwerth eich holl gronfeydd pensiwn) y gellir eu hadeiladu cyn ennyn cost treth ychwanegol. I gadarnhau'r swm yma, cysylltwch â'ch Cronfa Pensiwn os gwelwch yn dda.

Bydd yr holl fuddion pensiwn yn cyfrif tuag at lwfans oes. Mae hyn yn cynnwys Cronfeydd Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (y rhai Rhydd a Mewnol), pensiynau personol a grŵp, pensiwn budd-ddeiliad, cytundebau blwydd-dal ymddeoliad, hawliau diogel mewn cynlluniau galwedigaethol eraill, pensiynau sydd eisoes yn cael eu talu a chredydau pensiwn yn deillio o setliad ysgariad.

Bob tro y byddwch yn cymryd buddion o drefniant pensiwn ar ôl 5ed Ebrill 2006, dylai eich darparwr pensiwn ddweud wrthy ch am ganran y lwfans oes a ddefnyddiwyd. Pan fyddwch yn gymwys i dderbyn buddion pensiwn, bydd yn rhaid i chi hysbysu eich darparwr pensiwn am swm y lwfans pensiwn sydd eisoes wedi ei glustnodi (os gwyddys).

Mae'r datganiad hwn yn gynnwysedig yn eich pecyn ymddeoliad.

Nodwch os gwelwch yn dda NA fydd eich buddion yn cael eu talu hyd nes y dychwelir y datganiad hwn.

Os yw cyfanswm gwerth eich hawliau pensiwn yn fwy na'r lwfans oes, fe godi'r gost dreth ar eich hawliau pensiwn - yn ychwanegol i'r dreth incwm.

## What is the Lifetime Allowance?

This is the total amount of pension savings (including the total value of all your pension funds) that can be built up before incurring an extra tax charge. To confirm this amount, please contact the Pension Fund.

All pension benefits will count towards the lifetime allowance. This includes Additional Voluntary Contribution Funds (both Free-Standing and In-house), personal and group personal pensions, stakeholder pensions, retirement annuity contracts, rights preserved in other occupational schemes, pensions already in payment and pension credits derived from divorce settlements.

Every time you draw benefits from a pension arrangement after 5th April 2006, you should be told by the pension provider, the percentage of the lifetime allowance used. When you become entitled to receive a pension benefit, you will have to advise your pension provider of the amount of lifetime allowance already allocated (if known).

This declaration is included in your retirement pack.

Please note that your benefits will NOT be paid until this declaration is returned.

Should the total value of your pension rights exceed the lifetime allowance, your pension rights will be subject to a tax charge - in addition to the normal application of income tax.

## Beth mae'r Gronfa Bensiwn yn ei wneud?

### Hysbysiad gan eich cyflogwr

Dim ond wedi derbyn hysbysiad priodol gan eich cyflogwr yn cadarnhau eich aelodaeth, tâl terfynol a'r rheswm eich bod yn gadael, y prosesir eich ymddeoliad. Ni all cyflogwyr roi'r manylion hyn ond wedi i'ch taliad terfynol gael ei gyfrifo a'i gwblhau gan y gyflogres. Gall hyn achosi peth oedi yn prosesu eich buddion ymddeoliad.

### Y Pecyn Ymddeoliad

Wedi derbyn y wybodaeth gan eich cyflogwr, fe gyfrifir eich buddion pensiwn ac fe fyddwch yn derbyn eich pecyn ymddeoliad. Cewch wybod gwerth eich buddion pensiwn a'r dewis i gyfnwid cyfran o'ch pensiwn er mwyn derbyn lwmp swm mwy. Fe ofynnir i chi i gadarnhau eich statws priodasol a pha un ai yr ydych yn dymuno diweddarau eich dymuniad mynegiant grant marwolaeth.

Dylid cyflenwi'r wybodaeth ganlynol:

- Manylion banc (y cyfrif ble telir y pensiwn, a'r lwmp swm os oes un);
- Tystysgrif geni eich Priod/Partner Sifil/ Partner Sy'n Cyd Fyw Cymwys (os yn berthnasol);
- Tystysgrif priodas / Datganiad partneriaeth sifil (os yn berthnasol);
- Archddyfarniad Absoliwt / tystysgrif diddymiad partneriaeth sifil (os yn berthnasol);
- Tystysgrif marwolaeth priod / partner sifil (os yn berthnasol).

**Cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn os gwelwch yn dda i gadarnhau pa un ai yw tystysgrifau gwreiddiol / copïau ardystiedig neu gopïau o'r tystysgrifau hyn yn dderbyniol.**

Fe ofynnir i chi hefyd roi manylion unrhyw fuddion pensiwn eraill sydd gennych hawl i'w derbyn (neu yr ydych eisoes yn eu derbyn), fel y gellir gwneud prawf yn erbyn eich Lwfans Oes.

Nodwch os gwelwch yn dda NA ryddheir eich buddion hyd nes y cwblheir ac y dychwelir y datganiad hwn i'r Gronfa Bensiwn.

## What does the Pension Fund do?

### Notification from your employer

